5.162

Eisteddfod Gadeiriol Pontardawe, 1913

# Telyneg: Y FRIALLEN.

FRIALLEN gynta'r flwyddyn:
O ble y daethost ti?
Y Gwanwyn aeth drwy'r goedwig,
Ac ol ei droed wyf fi.

A wyt ti'n teimlo'n unig
Ar lethrau'r gelltydd mawr?
Na, gyda'r wawr yfory
Bydd lluoedd hyd y llawr.

Mor bur a glân yw'th wyneb!
A'th wên fel seren dlos:
'Rwyf beunydd yn ymolchi
Ym mheraidd wlith y nos.

'Rwyt felly'n cadw'n effro,
Heb huno'r nos na'r dydd?
'Rwyf wedi cysgu digon
Drwy oriau'r Gaeaf prudd.

'Oes rhyw gyfathrach rhyngot
A'r deryn ar y pren?
'Rwy'n gwenu pan y disgyn
Ei fiwsig ar fy mhen.

Beth yw dy neges imi,
Friallen fach y coed?
Y Gwanwyn yw fy Mrenin,
'Rwy'n deffro'n ol ei droed.

THOREAU.

X205 24 S 357